Marciau ar y ffordd

Ar draws y lôn gerbydau

Llinell stopio wrth arwyddion neu fan rheoli gan yr heddlu

Llinell stopio wrth arwydd 'Stop'



Llinell stopio i gerddwyr ger croesfannau rheilffordd



Ildiwch i draffig ar brif ffordd (gellir hefyd ei ddefnyddio ar gylchfannau bach)

Ildiwch i draffig o'r dde ar gylchfan

Ildiwch i draffig o'r dde ar gylchfan fach

Ar hyd y lôn gerbydau

Llinell derfyn

Llinell ganol
Gweler Rheol 127

Llinell rybuddio
Gweler Rheol 127

Llinellau gwyn dwbl
Gweler Rheolau 128 a 129



Gweler Rheol 130

Llinellau lonydd
Gweler Rheol 131

Ar hyd ymyl y lôn gerbydau

Cyfyngiadau aros

Mae cyfyngiadau aros sy'n cael eu nodi gan linellau melyn yn berthnasol i lonydd cerbydau, palmentydd ac ymylon ffyrdd. Cewch aros i lwytho neu ddadlwytho (oni bai bod yna hefyd gyfyngiadau llwytho fel a ddisgrifir isod) neu i godi neu ollwng teithwyr. Mae llinellau melyn dwbl yn golygu dim aros ar unrhyw adeg, oni bai bod arwyddion sy'n nodi cyfyngiadau tymhorol penodol. Mae'r amseroedd pryd y mae'r cyfyngiadau yn berthnasol i farciau eraill ar y ffordd i'w gweld ar blatiau cyfagos neu ar arwyddion mynediad i barthau parcio a reolir. Os nad oes diwrnodau wedi'u nodi ar yr arwyddion, mae'r cyfyngiadau mewn grym bob dydd yn cynnwys ar y Sul a Gwyliau Banc. Mae marciau cilfach gwyn ac arwyddion talsyth (gweler isod) yn nodi ymhle y caniateir parcio.

Dim aros ar unrhyw adeg



Dim aros yn ystod yr amseroedd a ddangosir ar yr arwydd



Cyfyngir aros i'r amseroedd a'r cyfnod o amser a bennir ar y dyddiau a nodir

Rheolaeth aros ar Ffyrdd Coch

Mae llinellau coch yn cael eu defnyddio ar rai ffyrdd yn lle llinellau melyn. Yn Llundain, defnyddir llinellau coch dwbl a sengl ar Lwybrau Coch i ddangos bod aros i barcio, llwytho/dadlwytho neu i fynd i/dod oddi ar gerbyd (ac eithrio tacsi trwyddedig os oes gennych Fathodyn Glas) wedi'i waharddd. Mae'r llinellau coch yn berthnasol i'r lôn gerbydau, y palmant ac ymylon ffyrdd. Dangosir yr amseroedd pryd y mae gwaharddiadau'r llinellau coch mewn grym ar arwyddion gerllaw, ond mae llinell goch ddwbl BOB AMSER yn golygu na cheir aros ar unrhyw adeg. Ar Ffyrdd Coch cewch aros i barcio, llwytho/dadlwytho o fewn bocsys sydd wedi'u marcio'n arbennig, ac mae arwyddion cyfagos yn manylu ar yr amseroedd, y pwrpas ac am faint o amser y caniateir hyn. Mae bocs AG AMLINELL GOCH yn dynodi mai dim ond am ran o'r diwrnod y mae ar gael i'r pwrpas a nodwyd (e.e rhwng yr oriau brig prysur). Mae bocs AG AMLINELL GWYN yn golygu ei fod ar gael drwy gydol y dydd.

NI ALL LLINELLAU COCH A LLINELLAU MELYN SENGL OND RHOI ARWEINIAD I'R CYFYNGIADAU A'R RHEOLAU SYDD MEWN GRYM A DYLECH EDRYCH AR ARWYDDION GERLLAW NEU ARWYDDION WRTH DDOD I MEWN I'R PARTH I GAEL Y MANYLION.



Dim aros ar unrhyw adeg



Dim aros yn ystod yr amseroedd a ddangosir ar yr arwydd

Cyfyngir parcio i'r amseroedd a'r cyfnod o amser a bennir ar y dyddiau a nodir



Dim ond llwytho a ganiateir yn ystod yr amseroedd a ddangosir, am hyd at 20 munud

Ar ymyl y palmant neu ar ymyl y lôn gerbydau

Cyfyngiadau llwytho ar ffyrdd heblaw am Ffyrdd Coch

Mae marciau melyn ar ymyl y palmant neu ar ymyl y lôn gerbydau yn dynodi bod llwytho a dadlwytho yn cael eu gwahardd yn ystod yr amseroedd sydd wedi'u nodi ar y platiau du a gwyn cyfagos. Gallwch aros i godi neu ollwng teithwyr. Os nad oes diwrnodau wedi'u nodi ar yr arwyddion mae'r cyfyngiadau mewn grym bob dydd yn cynnwys ar y Sul a Gwyliau Banc.

EDRYCHWCH AR YR AMSEROEDD A DDANGOSIR AR Y PLATIAU BOB AMSER.

Mae rhannau o'r ffordd sydd wedi'u neilltuo i gerbydau sy'n llwytho a dadlwytho yn cael eu dynodi gan farc 'cilfach' gwyn gyda'r geiriau 'Llwytho'n Unig/Loading Only' ac arwydd 'troli' gwyn ar las. Mae'r arwydd hwn hefyd yn dangos a yw llwytho a dadlwytho wedi'i gyfyngu i gerbydau nwyddau yn unig, ac ar ba adegau y ceir defnyddio'r gilfach. Os nad oes amseroedd na diwrnodau wedi'u nodi, ceir ei defnyddio ar unrhyw adeg. Ni chaniateir i gerbydau barcio yma os nad ydynt yn llwytho neu'n dadlwytho.

Dim llwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg



Dim llwytho na dadlwytho yn ystod yr amseroedd a nodir



Cilfach lwytho

Marciau eraill ar y ffordd

Cadwch y fynedfa'n glir o gerbydau sy'n sefyll yn eu hunfan, hyd yn oed wrth godi neu ollwng plant

Rhybudd o arwydd 'Ildiwch' /'Give Way' o'ch blaen

Man parcio a neilltuwyd i'r cerbydau a enwir



Gweler Rheol 243



Gweler Rheol 141



Cyffordd sgwâr
Gweler Rheol 174

Peidiwch â rhwystro'r rhan honno o'r lôn gerbydau



Dynodi'r lonydd traffig